Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

COUNTER TERRORISM POLICING

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu ar: 28 Gorffennaf 2023

Ymateb i: **Cyd-arolygiad Gwrthderfysgaeth - Trefniadau'r isadran diogelwch gwladol ac amlasiantaeth ar gyfer rheoli troseddwyr terfysgaeth yn dilyn ymosodiadau gan derfysgwyr**

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar: 20 Gorffennaf 2023

## CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai EF (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf EF ar gyfer Cymru a Lloegr yn arolygwyr annibynnol sy'n craffu ar yr amodau ar gyfer, a thriniaeth carcharorion a throseddwyr. Maent yn adrodd eu canfyddiadau o garchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwasanaethau prawf a throseddwyr ifanc ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad, mae'n ofynnol i HMPPS / MoJ lunio cynllun gweithredu cadarn ac amserol ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u cytuno, eu cytuno'n rhannol, neu ni chytunwyd arnynt (gweler y categorïau isod). Lle y cytunir ar argymhelliad neu y cytunir arno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu yn darparu camau a chamau gweithredu penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu yn glir, mesuradwy, cyraeddadwy a pherthnasol i'r perchennog ac mae amserlen pob cam wedi'i diffinio'n glir. Anfonir y cynlluniau gweithredu at HMIP a'u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro erbyn gweithrediad a chyflawniad y cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro ac adroddir arno.

| **Term** | **Diffiniad** | **Sylwadau ychwanegol** |
|---|---|---|
| Cytunwyd | Cytunwyd ar bob un o'r argymhellion, gellir eu cyflawni ac maent yn fforddiadwy. | Dylai'r ymateb esbonio'n glir sut y bydd yr argymhelliad yn cael ei gyflawni ynghyd â'r amserlenni. Dylai'r camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) i'r graddau y bo'n bosibl. Dylai'r camau gweithredu fod yn rhai digon penodol er mwyn gallu olrhain eu cynnydd. |
| Cytunwyd yn Rhannol | Dim ond rhan o'r argymhelliad sydd wedi'i gytuno, gellir ei gyflawni, ei fod yn fforddiadwy ac y caiff ei weithredu. Gallai hyn fod oherwydd na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Mae'n rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad fydd yn cael ei weithredu ynghyd â'r camau gweithredu CAMPUS a dylid olrhain eu cynnydd.<br>Mae'n **rhaid** darparu esboniad pam na allwn gytuno'n llwyr ar yr argymhelliad – rhaid i hyn ddatgan yn glir beth yw'r rheswm dros hyn, ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

| | | |
|---|---|---|
| Ni Chytunwyd | Ni chytunwyd ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod oherwydd rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Mae’n rhaid i’r ymateb ddatgan yn glir y rhesymau pam nad ydym wedi dewis yr opsiwn hwn.<br>Mae’n **rhaid** darparu esboniad pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad – rhaid i hyn ddatgan yn glir beth yw’r rheswm dros hyn, ai rhesymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

CYNLLUN GWEITHREDU: Cyd-arolygiad Gwrthderfysgaeth - Trefniadau'r isadran diogelwch gwladol ac amlasiantaeth ar gyfer rheoli troseddwyr terfysgaeth yn dilyn ymosodiadau gan derfysgwyr.

| 1.<br>Rhif yr Argymhelliad | 2.<br>Argymhelliad | 3.<br>Cytunwyd/ Cytunwyd yn Rhannol / Ni Chytunwyd | 4.<br>Ymateb<br>Cam Gweithredu a Gymerwyd/Arfaethedig | 5.<br>Perchennog Cyfrifol | 6.<br>Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:** | | | | |
| 1 | Comisiynu systemau storio sy'n gallu storio gwybodaeth hyd at y dosbarthiad cyfrinachol i sicrhau bod yr Is-adran Diogelwch Gwladol yn gallu cofnodi penderfyniadau sefydliadol a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar ôl i wybodaeth gyfrinachol gael ei datgelu. | Cytunwyd | Bydd HMPPS yn datblygu achos busnes strategol ar gyfer gwella mynediad HMPPS at dechnoleg lefel uchel er mwyn i'r asiantaeth allu gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid diogelwch cenedlaethol i reoli risg. Bydd strwythur arfaethedig y gwaith hwn yn mynd i'r afael yn gyntaf â'r risgiau a'r bylchau mwyaf difrifol mewn gallu, gan gynnwys yr Is-adran Diogelwch Gwladol (NSD) cyn ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel partner yn y rhaglen traws-system ehangach o gyflwyno technoleg lefel uchel. Bydd yr achos busnes wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023-24 a bydd ei weithrediad yn dibynnu ar ei gyflwyno a'r canfyddiadau cychwynnol. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Mawrth 2024 |
| 2 | Darparu technoleg fideo a ffôn i'r Is-adran Diogelwch Gwladol sy'n gallu anfon a derbyn gwybodaeth sydd ar lefel gyfrinachol. | Cytunwyd | Bydd HMPPS yn datblygu achos busnes strategol ar gyfer gwella mynediad HMPPS at dechnoleg lefel uchel er mwyn i'r asiantaeth allu gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid diogelwch cenedlaethol i reoli risg. Bydd strwythur arfaethedig y gwaith hwn yn mynd i'r afael yn gyntaf â'r risgiau a'r bylchau mwyaf difrifol mewn gallu, gan gynnwys yr Is-adran Diogelwch Gwladol (NSD) cyn ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel partner yn y rhaglen traws-system ehangach o gyflwyno technoleg lefel uchel. Bydd yr achos busnes wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023-24 a bydd ei weithrediad yn dibynnu ar ei gyflwyno a'r canfyddiadau cychwynnol. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Mawrth 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:** | | | | |
| 3 | Comisiynu i ddatblygu system rheoli achosion Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth yn effeithlon ac effeithiol, sy'n galluogi pob defnyddiwr i brosesu achos drwy reolaeth oes lawn. Hefyd, dylai'r system alluogi i wybodaeth briodol ar berfformiad a rheoli gael ei chasglu, ei dadansoddi a'i hadrodd. Dylid adolygu'r System Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPS) er mwyn ystyried a yw'n cyflawni'r anghenion hynny. | Cytunwyd | Pob partner – Swyddfa Gartref; Heddlu Gwrthderfysgaeth (CT); Mae HMPPS yn ymrwymedig i ddatblygu System Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPS) er mwyn ei bod yn mynd i'r afael yn llawn â'r bylchau a'r gwendidau yn system y Gronfa Ddata o Unigolion Peryglus (VISOR) Genedlaethol bresennol a darparu system rheoli achosion effeithiol ar draws y system ar gyfer rheoli enwol am oes.<br><br>Disgwylir i'r System Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPS) gael ei lansio yn ystod y Gorffennaf 2025. | Uwch Swyddog Cyfrifol Rhaglen MAPPS<br><br>Ditectif Uwcharolygydd Dros dro Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth<br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Gorffennaf 2025 |
| | **Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi:** | | | | |
| 4 | Adolygu'r arfer presennol o'i gwneud yn ofynnol i bob achos risg terfysgol a therfysgaeth gael ei glywed mewn cyfarfodydd MAPPA lefel tri am o leiaf 12 mis, gan wneud y dull yn fwy ymatebol i gyflwyno risg a barn broffesiynol paneli MAPPA, a sicrhau bod y model yn gynaliadwy wrth symud ymlaen. | Cytunwyd | Bydd angen cymeradwyaeth weinidogol i newid yr arfer hwn. Mae papur yn y broses o gael ei gyflwyno i Weinidogion sy'n gofyn am adolygu'r trefniant presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob troseddwr terfysgol gael ei reoli ar Lefel 3 Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) am y 12 mis cyntaf ar ôl rhyddhau o'r ddalfa. Byddai hyn yn galluogi'r Is-adran Diogelwch Gwladol (NSD) i benderfynu fesul achos ar y lefel MAPPA ofynnol yn seiliedig ar asesiadau risg. | Cyfarwyddwr Prawf Is-adran Diogelwch Gwladol | Awst 2023 |
| 5 | Datblygu offer pwrpasol ar gyfer mesur perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol wedi'u cyfoethogi. | Cytunwyd | Bydd y Grŵp Arfer Effeithiol a Gwella Gwasanaeth (EPSIG) yn HMPPS ac Adran Data a Dadansoddi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu Fframwaith Perfformiad ar gyfer yr Is-adran Diogelwch Gwladol a fydd yn cynnwys lefelau gwasanaeth ar gyfer Safonau Cenedlaethol Uwch a'r rhai sy'n berthnasol i Safonau Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer carfannau'r Is-adran Diogelwch Gwladol. Mae gwaith ar y mesurau newydd wedi dechrau | Dirprwy Gyfarwyddwr Grŵp Arfer Effeithiol a Gwella Gwasanaeth | Ebrill 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyda threfn flaenoriaeth y cytunwyd arni ac amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua chwe mis. | | |
| | **Dylai'r Uned Eithafiaeth ar y Cyd:** | | | | |
| 6 | Atgyfnerthu arweinyddiaeth ac arfer drwy gyhoeddi fframwaith gweithredol wedi'i ddiweddaru ar gyfer rheoli'r risg o derfysgwyr a therfysgaeth i ymarferwyr y gwasanaeth prawf a charchardai | Cytunwyd | Mae'r Fframwaith Polisi Rheoli Eithafiaeth (MEPF) yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yn awr.<br><br>Mae corff mawr o Weithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u cynhyrchu ers 2019, sy'n darparu arweiniad i ymarferwyr rheng flaen sy'n ymwneud â Chyflawni Gweithredol Gwrthderfysgaeth. Bydd yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) yn adolygu'r fframwaith gweithredol i sicrhau bod y polisi cyffredinol yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth bresennol a'i gwneud yn symlach i ymarferwyr lywio tirwedd gymhleth polisi gweithredol. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Mehefin 2024 |
| 7 | Adolygu a ddylid caniatáu mynediad at y Fframwaith Canllaw Braenaru i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am achosion risg terfysgaeth. | Cytunwyd | Tîm Cyflawni Gweithredol JEXU fydd yn gyfrifol am gyflawni'r cam gweithredu hwn, a fydd yn ymgynghori â'r Ganolfan Asesu ac Adsefydlu Gwrthderfysgaeth (CTARC) yn ôl yr angen ar y canlynol:<br><br>• Cytuno ar y cyfarwyddiadau trin dros dro a'u cyhoeddi pan fydd Gweithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) y Fframwaith Canllaw Braenaru Interim (PGF) yn cael ei hadolygu a chyfarwyddiadau trin newydd yn cael eu cynnwys.<br>• Gwybodaeth i'w hanfon at bob Arweinydd Atal Carchardai (PPL) ac Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSPP) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newid i'r cyfarwyddiadau trin, wrth aros i Weithdrefn Gweithredu Safonol newydd gael ei chyhoeddi a'r angen i rannu'r Fframwaith Canllaw Braenaru gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchar a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol.<br>• Adolygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Fframwaith Canllaw Braenaru i sicrhau bod y cyfarwyddiadau trin yn cefnogi'r Fframwaith yn llawn a/neu fod y ddalen wybodaeth yn cael ei rhannu ym mhob achos gyda'r ymarferwyr sy'n gyfrifol am achosion Risg o Derfysgaeth. I gefnogi'r defnydd priodol o'r Fframwaith, gwneir hyn bob amser gyda chefnogaeth Arweinwyr Atal Carchardai/Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | <br><br>Medi 2023<br><br>Medi 2023<br><br>Rhagfyr 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Bydd gweithdai yn cael eu dylunio a'u cyflwyno i Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth ac Arweinwyr Atal Carchardai i gefnogi eu dealltwriaeth o'r angen i rannu'r Fframwaith Cynllun Braenaru gydag Ymarferwyr Prawf a sut i wneud hyn/sut y gellir defnyddio'r Fframwaith i hysbysu asesiadau, er enghraifft y System Asesu Troseddwyr heb gael eu hatgyfeirio iddynt.<br>• Bydd gweithdai yn cael eu dylunio a'u cyflwyno i Ymarferwyr Prawf Arbenigol yr Is-adran Diogelwch Gwladol, arweinwyr Atal Carchardai mewn rhanbarthau Prawf sy'n gyfrifol am Risg Terfysgaeth a Rheolwyr Troseddwyr Carchardai i gefnogi eu dealltwriaeth o'r Fframwaith Cynllun Braenaru. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu rhannu gyda staff ar y pwynt angen pan fyddant yn dod yn gyfrifol am achos Risg Terfysgaeth. | | Ebrill 2024<br><br>Ebrill 2024 |
| 8 | Nodi sut i ymgorffori asesiadau'r Fframwaith Canllaw Braenaru yn y System Asesu Troseddwyr i hysbysu prosesau rheoli risg a chynllunio dedfryd ar gyfer achosion risg terfysgaeth. | Cytunwyd | Canllawiau i gefnogi Ymarferwyr Prawf Gwrthderfysgaeth ac Arweinwyr Atal Carchardai ynghylch rhannu'r Fframwaith Canllaw Braenaru gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchardai (POM) a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol (COM) i'w cyhoeddi i'w cwblhau gyda chanllawiau ychwanegol y gellir eu rhannu gyda POM a COM i gefnogi eu dealltwriaeth o'r Fframwaith. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hysgrifennu ar y cyd gan Arbenigwyr Pwnc y Rhwydwaith Gweithredu Gwrthderfysgaeth a CTARC.<br><br>Dosberthir y canllawiau er mwyn cwblhau'r System Asesu Troseddwyr ar gyfer achosion terfysgaeth a'r risg o derfysgaeth gan Dimau Gwrthderfysgaeth y Gwasanaeth Prawf.<br><br>Ymgorfforir y sicrwydd y bydd y Fframwaith Canllaw Braenaru yn cael ei rannu yn yr Offeryn Datblygu Ansawdd Gwrthderfysgaeth. Gwneir hyn yn adran Technoleg Gwybodaeth Braenaru'r offeryn cymunedol gyda chwestiwn penodol yn y Fframwaith (sy'n gysylltiedig â chyswllt nDelius) yn cael ei ychwanegu yn yr adolygiad blynyddol nesaf. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Rhagfyr 2023<br><br>Awst 2023<br><br>Mai 2024 |
| 9 | Diwygio'r matrics rheolaeth ac ymyriadau i fod yn fwy sensitif i lefelau o risg. | Cytunwyd | Mae'r Ganolfan Asesu ac Adsefydlu Gwrthderfysgaeth (CT-ARC) wedi trefnu adolygiad ffurfiol o'r Matrics Rheolaeth ac Ymyriadau (CIM). | Uwch Swyddog Cyfrifol Canolfan Asesu ac Adsefydlu | Cwblhawyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyhoeddir canllawiau diwygiedig ar gyfer defnyddio'r Matrics Rheolaeth ac Ymyriadau gan staff y rhwydwaith gweithredu gwrthderfysgaeth.<br><br>Bydd y Matrics Rheolaeth ac Ymyriadau yn cael eu diwygio i ddechrau drwy graffu ar y data sydd ar gael o'r Matrics Rheolaeth ac Ymyriadau Enwol Braenaru, sy'n cynnwys adolygiad o addasrwydd y lefelau risg presennol. Bydd ymarfer cwmpasu, gan gynnwys fforymau ymarferwyr, yn cael ei arwain gan CT-ARC – bydd y gwaith hwn yn dechrau ar ddiwedd 2023 ac yn parhau hyd at ddechrau 2024. Bydd diweddariadau o'r canfyddiadau yn cael eu rhannu gan Fyrddau Gwrthderfysgaeth Carchardai a Gwrthderfysgaeth Prawf erbyn Mehefin 2024. Yna bydd tystiolaeth a gasglwyd o'r ymarfer cwmpasu yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu offeryn newydd a fydd yn cael ei dreialu'n helaeth gan rwydweithiau gweithredol gwrthderfysgaeth JEXU.<br><br>Bwriedir i fersiwn derfynol yr offeryn newydd gael ei chyflwyno yn 2025.<br><br>Bydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu'r Matrics Rheolaeth ac Ymyriadau (a'r lefelau risg) yn cael eu harwain gan y gwaith Diwygio Braenaru ehangach sy'n cael ei gwblhau gan JEXU ac ymrwymiadau a blaenoriaethau gwaith eraill yn y CT-ARC.<br><br>Bydd fframwaith blaenoriaethu ar waith i helpu gyda'r gwaith o flaenoriaethu prosiectau a dyrannu adnoddau CT-ARC. Fel rhan o'r Rhaglen Ddiwygio Braenaru, rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod y matrics rheolaeth ac ymyriadau yn cael ei adolygu a'i ddiwygio i alinio â diffiniad cyffredinol, amlasiantaeth o'r risg o derfysgaeth a'u bod yn cynrychioli lefelau mwy cynnil o gyflwyno risg. | Gwrthderfysgaeth (CT-ARC) | Awst 2023<br><br>Mehefin 2024<br><br>Mehefin 2025 |
| 10 | Dadansoddi cyfradd ac ansawdd atgyweiriadau i'r Cynllun Braenaru, gan y Gwasanaeth Prawf, i sicrhau bod risgiau terfysgaeth yn cael eu nodi ac y cymerir camau gweithredu priodol ym mhob achos perthnasol. | Cytunwyd | Bydd Tîm Sicrwydd JEXU yn cynnal adolygiad thematig gyda ffocws ar atgyfeiriadau a'r broses ddilysu (derbyn neu wrthod) i'r Cynllun Braenaru wedi hynny.<br><br>Cyflwynir yr adolygiad thematig yn llawn ym mis Medi ond mae'n debygol o gynnwys sampl o ddata sy'n cynnwys atgyfeiriadau o un chwarter o leiaf, sy'n cwmpasu trawstoriad o ranbarthau, mewn carchardai ac yn y gymuned, er mwyn adolygu achosion a fabwysiadwyd fel rhai nad oedd angen gweithredu pellach arnynt. Bydd y fethodoleg (i'w gadarnhau ym mis Medi) yn cynnwys holiaduron hunanasesu, cyfweliadau lled-strwythuredig yn ogystal ag | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Tachwedd 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | adolygiad llawn o'r sampl data (e.e., cofnodion achosion, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau gwybodaeth).<br><br>Ychwanegir hyn i'r amserlen barhaus o ymarferion thematig a gynhelir gan Dîm Sicrwydd JEXU.  Y bwriad yw cynnal yr adolygiad thematig hwn ddechrau mis Medi 2023 dros gyfnod o 12 wythnos. | | |
| 11 | Sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir i reolwyr troseddwyr carchardai a gweithwyr allweddol yn eu cymhwyso i reoli terfysgwyr a'r rhai sy'n cyflwyno risg o derfysgaeth yn hyderus | Cytunwyd | Eir i'r afael â'r argymhelliad hwn drwy ail-ddatblygu'r hyfforddiant presennol ar wrthderfysgaeth ar draws HMPPS sy'n cael ei arwain gan adran Dysgu a Datblygu Gwrthderfysgaeth JEXU.<br><br>Bydd y pecyn hyfforddiant newydd (a fydd ar gael i reolwyr troseddwyr carchardai a gweithwyr allweddol) yn canolbwyntio ar ddarparu ymwybyddiaeth ac uwchsgilio staff i sylwi'n hyderus ar arwyddion radicaleiddio a newidiadau mewn ymddygiad a'r dulliau priodol o adrodd y pryderon hyn, rheoli terfysgwyr a'r rhai sy'n cyflwyno risg o derfysgaeth yn effeithiol.<br><br>Yn ogystal â'r cynnig hyfforddiant Gwrthderfysgaeth newydd, mae Rhwydweithiau Gwrthderfysgaeth JEXU wedi cwblhau'r Dystysgrif Uwch Lefel 7 mewn Gwrthderfysgaeth, a fydd yn eu galluogi i gefnogi staff rheng flaen yn well er mwyn iddynt allu rheoli'r risgiau'n hyderus.<br><br>Bwriedir i'r pecyn hyfforddiant newydd gael ei gyflwyno ar draws HMPPS erbyn Rhagfyr 2023. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Rhagfyr 2023 |
| | **Dylai'r Gwasanaeth Prawf:** | | | | |
| 12 | Sicrhau y gwneir ymholiadau cam-drin domestig a diogelu priodol ym mhob achos ar gyfnodau pontio allweddol a defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu gwaith rheoli risg a chynllunio dedfrydau. | Cytunwyd | Cymerwyd camau i gynyddu'r nifer o ymholiadau cam-drin domestig a diogelu sy'n cael eu cynnal gan yr Is-adran Diogelwch Gwladol (NSD).  Mae Ymarferwyr yr Is-adran Diogelwch Gwladol, gyda chefnogaeth staff gweinyddol, wedi sicrhau bod ymholiadau'n gyflawn ar gyfer pob achos cymwys ym maich gwaith yr Is-adran Diogelwch Gwladol, ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy adroddiadau data misol.  Mae'r Is-adran Diogelwch Gwladol wedi gwneud cynnydd sylweddol ac mae gan bron i bob achos yn y gymuned ymholiadau wedi'u cofnodi ar nDelius.  Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn fisol. | Cyfarwyddwr Prawf Is-adran Diogelwch Gwladol | Cwblhawyd a pharhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd y broses o ymgorffori'r wybodaeth hon wrth reoli risg a chynllunio dedfrydau yn cael ei monitro gan Offeryn Archwilio Achosion yr Is-adran Diogelwch Gwladol ac yn cael ei hadolygu bob 6 mis. | | Ionawr 2024 |
| 13 | Sicrhau bod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â throseddu yn cael eu nodi a'u hymgorffori wrth reoli risgiau a chynllunio dedfrydau. | Cytunwyd | Er mwyn sicrhau bod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â throseddu yn cael eu nodi a'u hymgorffori mewn cynlluniau rheoli risg a chynllunio dedfrydau, bydd yr Is-adran Diogelwch Gwladol yn cyflwyno'r mesurau canlynol:<br><br>• Cynnal cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant a gweithdai ar gyfer ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar droseddau rhyw a cham-drin domestig.<br>• Camau sicrhau ansawdd achosion gwrthderfysgaeth gan ddefnyddio Offeryn Archwilio Achosion yr Is-adran Diogelwch Gwladol ochr yn ochr â'r Offeryn Datblygu Ansawdd Gwrthderfysgaeth ym mis Awst 2023.<br>• Bydd angen i Uwch Arweinwyr Gweithredol sicrhau bod yr holl anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu yn cael eu hystyried a'u hymgorffori mewn cynlluniau ac asesiadau wrth wrthlofnodi a sicrhau ansawdd systemau asesu troseddwyr.<br>• Penaethiaid Unedau Diogelwch Gwladol (HoNSUs) ac Uwch Arweinwyr Gweithredol (SOLs) i sicrhau bod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â throseddu yn hysbysu'r Trefniant Diogelwch Cyhoeddus Amlasiantaeth (MAPPA) a'r trafodaethau Grŵp Craidd. Cofnodir hyn drwy adolygiad o gofnodion cyfarfodydd.<br><br>Adolygir canlyniadau'r NSD-CAT bob chwe mis er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn. | Cyfarwyddwr Prawf Is-adran Diogelwch Gwladol | Mawrth 2024<br><br>Ionawr 2024 |
| 14 | Datblygu offeryn rheoli baich gwaith er mwyn mesur yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu ar draws yr Is-adran Diogelwch Gwladol. | Cytunwyd | Bydd y System Cynllunio'r Gweithlu yn adolygu baich gwaith yr Is-adran Diogelwch Gwladol, yn seiliedig ar y nifer bresennol o achosion a nifer yr achosion yn y dyfodol.<br><br>Bydd y System Cynllunio'r Gweithlu yn cynhyrchu model adnoddau'r Is-adran Diogelwch Gwladol gan ddefnyddio'r gweithgareddau a'r pwysoliadau.<br><br>Bydd datrysiad Offeryn Mesur Baich Gwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer Ymarferwyr Prawf yr Is-adran Diogelwch Gwladol. | Dirprwy Gyfarwyddwr Rhaglen y Gweithlu Prawf | Hydref 2023<br><br>Rhagfyr 2023<br><br>Mawrth 2024 |

| | Dylai’r Gwasanaeth Prawf: | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | Sicrhau bod rheolwyr troseddwyr carchardai a gweithwyr allweddol yn cael cyswllt rheolaidd ac ystyrlon gyda throseddwyr ar eu baich achosion. | Cytunwyd | Mewn ymateb i’r archwiliad thematig o Reoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) - Cyn ei ryddhau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, sefydlwyd prosiect Ailbennu ac Ail-lansio Adolygiad OMiC i symleiddio’r model gweithredu, egluro rolau a chyfrifoldebau a grymuso arweinwyr lleol gyda’r rhyddid i addasu’r model i weddu eu hanghenion lleol hwy.<br><br>Mae tîm cenedlaethol OMiC wedi ymrwymo i ddefnyddio tystiolaeth, data a dysgu er mwyn adolygu a datblygu’r model OMiC presennol er mwyn darparu’r nifer fwyaf o gyfleoedd i sicrhau canlyniadau gwell i garcharorion. Bydd hyn yn cynnwys adolygu Gwaith Allweddol a dulliau rheoli achosion, archwilio ffyrdd y gellir gwneud y model presennol yn fwy hyblyg er mwyn cefnogi dulliau cyflenwi yn well, ystyried gwahanol swyddogaethau carchardai a charfannau o garcharorion. Bydd y newidiadau a wneir yn ceisio datblygu cydberthnasau adeiladol a chymhellol gyda charcharorion, gan ymateb i risg ac anghenion unigolion a chydlynu’n briodol y broses o gyflenwi gwasanaethau ac ymyriadau yn y ddalfa.<br><br>Wrth gynnal yr adolygiad, mae pob carchar wedi datblygu cynllun cynnydd prosesau sy’n cynrychioli’r broses y mae pob carchar yn anelu at ddarparu ar ei chyfer a’i chyflenwi yn ystod 2023/24. Mae’n rhaid i’r cynlluniau hyn ystyried ymrwymiad i gyflawni gwaith allweddol a phan nad yw’n bosibl cyflawni yn erbyn y model sydd wedi’i ragnodi ar hyn o bryd, er enghraifft oherwydd materion adnoddau, bydd angen i garchardai gytuno ar y lefel o waith allweddol y byddant yn anelu ati gyda Chyfarwyddwr y Grŵp Carchardai.<br><br>Hefyd, mae prosiect i adolygu dyraniad adnoddau carchardai wedi’i gomisiynu, a bydd y prosiect hwn yn cefnogi dulliau proffilio, darparu adnoddau a goruchwylio rheolaeth gwaith allweddol effeithiol. Ochr yn ochr â’r prosiect hwn, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella dulliau rheoli adnoddau drwy dreialu offeryn amserlenni staff a thrwy raglen newydd, trawsnewid y gweithlu er mwyn gwella sgiliau a gallu. Bydd buddion y gweithgaredd tymor hwy hwn yn gofyn am newid system ac yn annhebygol o gael eu gweld cyn Mehefin 2024. | Dirprwy Gyfarwyddwr, Uwch Swyddogion Cyfrifol Adolygiad OMiC, Prosiect Ailbennu ac Ail-lansio<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Dirprwy Gyfarwyddwr Grŵp Adnoddau a Phrosesau | Cwblhawyd<br><br><br><br><br><br>Ebrill 2024<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>Cwblhawyd<br><br><br><br><br><br><br><br><br>Mehefin 2024 |
| 16 | Blaenoriaethu hyfforddiant sylfaenol ar eithafiaeth i bob aelod o staff rheng flaen, | Cytunwyd yn Rhannol | Mae’r argymhelliad wedi’i gytuno’n rhannol am resymau gweithredol. Tra bod y pecyn hyfforddiant Gwrthderfysgaeth presennol ar gael mewn | Dirprwy Gyfarwyddwr yr | Rhagfyr 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | gan gynnwys hyfforddiant diweddaru, pan fydd ei angen. | | carchardai, mae'r Strategaeth Ymwybyddiaeth i Staff ar Atal Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth (ASPECTS) wedi'i nodi'n ddiweddar fel un o'r ymyriadau diogelwch a hyfforddiant diogelwch allweddol y dylid rhoi blaenoriaeth iddo, nid yw'n orfodol ac mae'n cael ei ddarparu yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwyr y Grŵp Llywodraethwyr a Charchardai i sicrhau bod staff ar gael ar gyfer yr hyfforddiant hwn.<br><br>Fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith newydd o ailddatblygu'r cynnig hyfforddiant Gwrthderfysgaeth, mae Dysgu a Datblygiad Gwrthderfysgaeth JEXU yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer darparu pecyn hyfforddiant Gwrthderfysgaeth newydd gorfodol ar draws HMPPS.<br><br>Er mwyn cynorthwyo sefydliadau ymhellach i gyflenwi ASPECTS, mae JEXU hefyd wedi darparu dau liniadur hyfforddiant i bob sefydliad, y gellir eu defnyddio i helpu i gyflenwi ASPECTS o bell er mwyn helpu i gwblhau cyfraddau cwblhau.<br><br>Darperir hyfforddiant diweddaru ar gyfer y pecyn hyfforddiant Gwrthderfysgaeth newydd ar ffurf modiwl diweddaru e-ddysgu, er mwyn helpu sefydliadau a staff i flaenoriaethu eu hyfforddiant Gwrthderfysgaeth yn well.<br><br>Mae Dysgu a Datblygiad Gwrthderfysgaeth hefyd yn monitro ffigurau hyfforddiant ar MyLearning a bydd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Carchardai a Phrawf Gwrthderfysgaeth er mwyn helpu i sicrhau bod hyfforddiant gwrthderfysgaeth yn cael ei flaenoriaethu<br><br>Disgwylir i'r pecyn hyfforddiant newydd gael ei gyflwyno ar draws HMPPS erbyn Rhagfyr 2023. | Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | |
| 17 | Sicrhau bod gan reolwyr troseddwyr carchardai fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol a diweddaraf mewn cysylltiad â phryderon ynghylch y risg o derfysgaeth er mwyn rheoli achosion yn gadarn. | Cytunwyd | Caiff y cam gweithredu hwn ei gyflenwi gan Dîm Cyflenwi Gweithredol yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU), a fydd yn ymgynghori gyda'r Ganolfan Asesu ac Adsefydlu Gwrthderfysgaeth (CT-ARC) yn ôl yr angen ar y canlynol:<br><br>• Cytuno ar y cyfarwyddiadau trin dros dro a'u cyhoeddi pan fydd Gweithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) y Fframwaith Canllaw | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Medi 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Braenaru Interim (PGF) yn cael ei hadolygu a chyfarwyddiadau trin newydd yn cael eu cynnwys.<br>• Gwybodaeth i'w hanfon at bob Arweinydd Atal Carchardai (PPL) ac Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth (CTSPP) i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newid i'r cyfarwyddiadau trin, wrth aros i Weithdrefn Gweithredu Safonol newydd gael ei chyhoeddi a'r angen i rannu'r Fframwaith Canllaw Braenaru gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchar a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol.<br>• Adolygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol y Fframwaith Canllaw Braenaru i sicrhau bod y cyfarwyddiadau trin yn cefnogi'r Fframwaith yn llawn a/neu fod y ddalen wybodaeth yn cael ei rhannu ym mhob achos gyda'r ymarferwyr sy'n gyfrifol am achosion Risg o Derfysgaeth. I gefnogi'r defnydd priodol o'r Fframwaith, gwneir hyn bob amser gyda chefnogaeth Arweinwyr Atal Carchardai/Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth.<br>• Bydd gweithdai yn cael eu dylunio a'u cyflenwi i Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth ac Arweinwyr Atal Carchardai i gefnogi eu dealltwriaeth o'r angen i rannu'r Fframwaith Cynllun Braenaru gydag Ymarferwyr Prawf a sut i wneud hyn/sut y gellir defnyddio'r Fframwaith i hysbysu asesiadau, er enghraifft y System Asesu Troseddwyr heb gael eu hatgyfeirio iddynt.<br>• Bydd gweithdai yn cael eu dylunio a'u cyflenwi i Ymarferwyr Prawf Arbenigol yr Is-adran Diogelwch Gwladol, arweinwyr Atal Carchardai mewn rhanbarthau Prawf sy'n gyfrifol am Risg Terfysgaeth a Rheolwyr Troseddwyr Carchardai i gefnogi eu dealltwriaeth o'r Fframwaith Cynllun Braenaru. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi er mwyn gallu eu rhannu gyda staff ar y pwynt angen pan fyddant yn dod yn gyfrifol am achos Risg Terfysgaeth.<br>• Arweiniad i gefnogi Ymarferwyr Prawf Arbenigol Gwrthderfysgaeth ac Arweinwyr Atal Carchardai ar rannu'r Fframwaith Cynllun Braenaru gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchar a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol i'w gwblhau gydag arweiniad ychwanegol y gellir ei rannu gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchar a Rheolwyr Troseddwyr Cymunedol i gefnogi eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r Fframwaith Cynllun Braenaru. Dosbarthu cyfarwyddyd ar gwblhau'r System Asesu Troseddwyr ar gyfer achosion risg terfysgol a therfysgaeth gan Dimau Gwrthderfysgaeth Carchardai Rhanbarthol (RCT) i staff yr Uned Rheoli Troseddwyr (OMU). | | Medi 2023<br><br>Rhagfyr 2023<br><br>Ebrill 2024<br><br>Ebrill 2024<br><br>Rhagfyr 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Mae'r Fframwaith Canllaw Braenaru yn cael ei rannu a'i ymgorffori yn yr Offeryn Datblygu Ansawdd Gwrthderfysgaeth - yn adran Technoleg Gwybodaeth Braenaru yr Offeryn cymunedol i ddechrau - ychwanegir cwestiwn penodol am y Fframwaith (sy'n gysylltiedig â chyswllt nDelius) yn yr adolygiad blynyddol nesaf.<br><br>Fel rhan o'r Rhaglen Diwygio Braenaru, rhoddir ystyriaeth i sicrhau bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phryderon risg terfysgaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol ac effeithlon gyda'r holl randdeiliaid perthnasol sy'n gysylltiedig â rheoli achos carcharor, gan gynnwys rheolwyr troseddwyr (i'w gadarnhau gan Fwrdd y Rhaglen Diwygiadau Braenaru erbyn diwedd Awst 2023). | | Mai 2024 |
| 18 | Sicrhau bod cynlluniau rheoli risg a dedfrydau yn cael eu hysbysu gan asesiadau o'r Canllawiau Risg Terfysgol neu'r Canllaw Fframwaith Braenaru | Cytunwyd | Bydd canllawiau'n cael eu hail-ddosbarthu er mwyn cwblhau asesiadau'r System Asesu Troseddwyr ar gyfer achosion risg o derfysgaeth a therfysgwyr gan y Timau Gwrthderfysgaeth Rhanbarthol i staff Unedau Rheoli Troseddwyr, sy'n cynnwys manylion o sut y dylai offerynnau asesu arbenigol (gan gynnwys y Fframwaith Canllaw Braenaru a'r Canllawiau Risg Eithafiaeth hysbysu'r asesiad risg o'r System Asesu Troseddwyr, y cynllun rheoli risg a'r cynllun dedfrydu.<br><br>Bydd disgwyliadau newydd ar gyfer awduron Canllawiau Risg Eithafiaeth yn cynnwys gofyniad i rannu copi o'r Canllawiau gyda Rheolwyr Troseddwyr Carchardai – ychwanegir y gofyniad hwn i Weithdrefn Gweithredu Safonol y Canllawiau Risg Eithafiaeth  Bydd copi o'r Canllawiau yn cael ei gadw hefyd ar y system TG Braenaru ac nDelius.<br><br>Bydd defnydd o'r Offeryn Datblygu Gwrthderfysgaeth (CTQDT) – y Ddalfa, a gyflwynwyd yn genedlaethol ar 3 Gorffennaf yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gwblhau.  Pan nodir nad yw hynny'n digwydd, bydd dull ar gael, drwy'r Timau Gwrthderfysgaeth Rhanbarthol ar gael i fynd i'r afael â hyn. | Dirprwy Gyfarwyddwr yr Uned Eithafiaeth ar y Cyd (JEXU) | Awst 2023 |
| | **Plismona Gwrthderfysgaeth:** | | | | |
| 19 | Dylai'r uwch gydlynydd cenedlaethol adolygu'r broses Fframwaith Asesu Troseddwyr Terfysgaeth Cofrestredig i sicrhau ei bod yn addas ar gyfer achosion sy'n cael eu harwain gan yr heddlu. | Cytunwyd | Cyflwynir yr argymhelliad hwn i Weithgor Asesu Risg Cenedlaethol yn y dyfodol a'i ystyried ochr yn ochr â'r cynllun peilot presennol er mwyn ehangu'r defnydd ar draws canran uwch o'r garfan Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth. | Ditectif Uwcharolygydd Dros dro Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth | Ebrill 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflwynir telerau unrhyw gynllun peilot arfaethedig i'r Uwch Gydlynydd Cenedlaethol i'w gymeradwyo ar ôl ei gwblhau. | | |
| 20 | Dylai'r uwch gydlynydd cenedlaethol weithio gyda'r Is-adran Diogelwch Gwladol a'r Uned Eithafiaeth ar y Cyd i ddatblygu a gweithredu proses asesu risg ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am ymweld â gwrthderfysgaeth yn y gymuned. | Cytunwyd | Cyflwynir yr argymhelliad hwn i Weithgor Asesu Risg Cenedlaethol yn y dyfodol, gyda chais i sefydlu gweithgor amlasiantaeth i lunio proses asesu risg. Bydd y cylch gorchwyl yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithgor dynnu ar arfer gorau presennol yn y system Gwrthderfysgaeth o fewn yr Heddlu Gwrthderfysgaeth (CTP) a HMPPS, yn ogystal ag edrych at unrhyw arbenigedd perthnasol yn y maes rheoli troseddwyr ehangach y tu hwnt i wrthderfysgaeth. Bydd y cylch gorchwyl hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ystyried a ddylid treialu'r asesiad cyn ei weithredu.<br><br>Cyflwynir y broses asesu, gan gynnwys telerau unrhyw gynllun peilot arfaethedig i'r Uwch Gydlynydd Cenedlaethol i'w gymeradwyo ar ôl ei gwblhau. | Ditectif Uwcharolygydd Dros dro Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth | Ebrill 2024 |
| 21 | Dylai'r Pennaeth Ymyriadau (Atal a Rheoli Enwol) sicrhau y cyflwynir canllawiau i'r timau Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth rhanbarthol sy'n nodi defnydd cyson o ViSOR i gefnogi'r gwaith Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth cyn gweithredu MAPPS ac unrhyw drawsnewidiad dilynol posibl. | Cytunwyd | Bydd tîm Polisi Ymyriadau Pencadlys yr Heddlu Gwrthderfysgaeth yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn a fydd yn drafftio canllawiau priodol, gan ddefnyddio arbenigedd presennol gan HMPPS a chydweithwyr plismona rheng flaen. | Ditectif Uwcharolygydd Dros dro Rheoli Enwol Gwrthderfysgaeth | Ebrill 2024 |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| Cytunwyd | 20 |
| Cytunwyd yn Rhannol | 1 |
| Ni Chytunwyd | 0 |
| **Cyfanswm** | 21 |